

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,  
Tredomen Park,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,  
Parc Tredomen,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG



[www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk)  
[www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Amy Dredge  
(Rhif Ffôn: 01443 863100 E-bost: [dredga@caerphilly.gov.uk](mailto:dredga@caerphilly.gov.uk))

**Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Mehefin 2018**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Cabinet** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach ar Dydd Mercher, 13eg Mehefin, 2018 am 2.00 pm.** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi hefyd ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r ddau gais hyn yn gofyn am gyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith, a bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,

**Christina Harrhy**  
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

## AGENDA

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

A greener place Man gwyrddach

Correspondence may be in any language or format | Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat



Councillors and Officers are reminded of their personal responsibility to declare any personal and/or prejudicial interest(s) in respect of any item of business on the agenda in accordance with the Local Government Act 2000, the Council's Constitution and the Code of Conduct for both Councillors and Officers.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- |  |  |         |
|--|--|---------|
| 3  | Cabinet a gynhaliwyd ar y 30ain Mai 2018.  | 1 - 6   |
| 4  | Blaenraglen Waith y Cabinet.   | 7 - 12  |
| I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol y mae angen penderfyniadau gweithredol arnynt; - |  |         |
| 5  | Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2017-2018 a'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022. | 13 - 56 |
| 6  | Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol   | 57 - 60 |
| 7  | Rhisga - Cytundeb Adran 106 Datblygiad Tesco: Ymrwymiad Cyllid.  | 61 - 72 |

### **Cylchrediad:**

Cynghorwyr

C.J. Cuss, N. George, C.J. Gordon, Mrs B. A. Jones, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps, D.V. Poole a Mrs E. Stenner,

A Swyddogion Priodol.

### **SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk). ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio [griffd2@caerffili.gov.uk](mailto:griffd2@caerffili.gov.uk) neu ffoniwch 01443 863028.



## CABINET

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIUYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN,  
DYDD MERCHER 30 MAI AM 2.00 P.M.**

---

YN BRESENNOL

Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), Cynghorydd C. Gordon (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro– Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Plant), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), D. Whetter (Pennaeth Adfywio Dros Dro), A. Dallimore (Arweinydd Tîm – Adnewyddu Trefol a Chadwraeth) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### **1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro).

### **2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### **3. COFNODION Y CABINET - 16 MAI 2018**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

### **MATERION YR OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL ARNYNT**

### **4. PROSIECTAU ADFYWIO YN Y DYFODOL – TREFNIADAU NEWYDD LLYWODRAETHU PROSIECTAU**

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno strwythur Llywodraethu newydd ar gyfer datblygu Prosiectau Adfywio ac i gytuno ar Aelodau arfaethedig y Bwrdd Prosiectau Adfywio a'i Gylch Gorchwyl. Hwn oedd yr ail adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet

mewn perthynas â datblygu Prosiectau Adfywio. Cytunodd y Cabinet ar 11 Ebrill 2018 i neilltuo £300,000 o gronfeydd wrth gefn y gyfarwyddiaeth gymunedau fel cronfa datblygu prosiectau er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu prosiectau adfywio fel eu bod yn 'barod i fynd'.

Esboniwyd bod sefydlu Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ynghyd â chymeradwyaeth gan y Cyngor llawn i Gynllun Busnes y Cytundeb Cydweithio ar 28 Mawrth 2018, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ysgogi cyllid ar gyfer prosiectau adfywio. Yn ogystal â chyfleoedd y Cytundeb Dinesig, mae nifer o fentrau adfywio eraill gan Lywodraeth Cymru, fel Tasglu'r Cymoedd a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, a allai arwain at sicrhau arian cyfalaf sylweddol i brosiectau lleol yn y dyfodol. Yng nghyfarfod y Cyngor, trafododd yr Aelodau rôl yr Aelodau o ran goruchwylio prosiectau sydd i'w datblygu.

Cyfeiriwyd y Cabinet at y Cylch Gorchwyl (wedi'i atodi i Adroddiad y Swyddog). Tynnwyd ei sylw at Aelodau arfaethedig y Bwrdd Prosiectau Adfywio. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Cymunedau), y Penaethiaid Gwasanaethau/ Rheolwyr Gwasanaethau perthnasol a'r Aelodau Cabinet perthnasol dros (Adfywio, Isadeiledd a Chynaliadwyedd) a'r (Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd). Hefyd caiff aelodau etholedig ychwanegol eu cynnwys ar y Bwrdd, a bydd hyn yn wleidyddol gytbwys. Trafododd y Cabinet yr Aelodau a gofynnodd am i'r gair 'Cynrychiolydd' gael ei roi yn lle'r gair 'Ward' yn y rhestr Aelodau (Rhan 1), mewn perthynas â'r pleidiau gwleidyddol.

Rhagwelir y bydd y Bwrdd Prosiectau Adfywio'n rhoi cyfeiriad strategol ac yn pennu tasgau a fydd yn cael eu cwblhau gan grŵp o Swyddogion gwasanaethau allweddol ("Tîm y Prosiect"). Bydd y Bwrdd yn cyflwyno adroddiadau i'r Cabinet a/neu'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, fel bo'n briodol. Nodwyd nad yw'r Bwrdd yn gorff gwneud penderfyniadau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfryd trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn Adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno ar y Strwythur Llywodraethu newydd a'r Cylch Gorchwyl cysylltiedig i'r Bwrdd Prosiectau Adfywio, yn amodol ar roi'r gair 'Cynrychiolydd' yn lle'r gair 'Ward' yn y rhestr Aelodau yn y Cylch Gorchwyl (atodiad 1).

## **5. ADEILADAU FFLATIAU YN HEOL YR AFON, PONTLOTYN A'R GELLI, FOCHRIW**

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddymchwel y bloc o fflatiau a adwaenir fel rhifau 1 i 9, Heol yr Afon, Pontlotyn, ac i dynnu rhifau 3 i 6, y Gelli, Fochriw, o'r stoc tai, gyda'r bwriad o ddymchwel y bloc yn y dyfodol.

Hysbyswyd y Cabinet bod fflatiau 1 i 9 Heol yr Afon yn gymysgedd o rai 1, 2 a 3 ystafell wely, a bod 1 i 6, Y Gelli yn cynnwys dwy uned siop weithredol ar y llawr gwaelod, sy'n masnachu fel un busnes, gyda 2 fflat dwy ystafell wely ar bob un o'r lloriau uwch. Mae llawer iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd a chamddefnyddio sylweddau wedi effeithio ar y ddau floc. Yn ogystal, mae'n anodd iawn gosod y fflatiau oherwydd eu lleoliad a'r cymysgedd eiddo. Yn y blynyddoedd diwethaf, buont yn gartrefi i aelwydydd dros dro gan fwyaf, ac nid ydynt yn arwain at gydlyniant cymunedol. Mae'r ddau floc yn wag ar hyn o bryd ac wedi cael eu diogelu. Mae arolygon wedi canfod bod angen buddsoddiad sylweddol oherwydd cyflwr yr adeiladwaith allanol a mewnol a'r ffiniau er mwyn iddynt gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

Esboniwyd bod yr holl landlordiaid partner â stoc tai yng Nghwm Rhymni Uchaf yn cael problemau gyda diffyg galw. Er bod angen heb ei ddiwallu am lety i bobl sengl ledled y fwrdeistref, bach iawn yw'r galw yng Nghwm Rhymni Uchaf am fflatiau dwy a thair ystafell wely, ac mae'r rhestrau aros yn cael eu disbyddu'n rheolaidd. Argymhellodd yr adroddiad y dylid dymchwel y ddau floc ond, gan gydnabod bod busnes llwyddiannus yn gweithredu yn y

Grove, y byddai'r gwaith dymchwel yn cael ei ohirio hyd nes y bydd y brydles bresennol yn dod i ben neu y bydd trefniadau eraill ar waith. Nodwyd bod ymgynghoriad wedi cael ei gynnal gydag Aelodau'r wardiau lleol a'r rhai cyfagos ac â'r heddlu, a oedd yn gefnogol iawn o'r cynnig.

Trafododd y Cabinet y siop pob peth oedd yn gweithredu yn y Gelli a mynegwyd yr angen i ddiogelu ei meddianwyr ac i gynnal amwynderau a gwasanaethau yn y pentref. Cadarnhawyd bod deiliaid y brydles yn cefnogi'r cynigion, a nodwyd bod rhyw 22 o flynyddoedd yn weddill ar y brydles. Esboniwyd bod y Cyngor yn cydnabod gwerth y siop i'r gymuned ac yn ceisio darparu lle arall i'r meddianwyr, er bod cyfyngiadau ar yr arian y gellir ei gael ar gyfer eiddo masnachol. Yn ogystal, gofynnodd y Cabinet am argymhelliad ychwanegol ac i Swyddogion edrych ar gyfleoedd i ddarparu eiddo masnachol newydd er mwyn hwyluso'r gwaith o ddymchwel y bloc o fflatiau yn 1 i 6, y Gelli, Fochriw, cyn gynted ag y bo modd.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno ynghynt i Dasglu Tai Caerffili a'r Pwyllgor Craffu Polisiâu ac Adnoddau. Roedd yr Aelodau yn y ddau gyfarfod wedi cefnogi'n unfryd yr argymhellion a nodwyd ym mharagraff 10.1.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr ystyriaeth a roddwyd i ailfodelu'r blociau o fflatiau. Rhoddwyd enghraifft o gael gwared ar y fynedfa gyffredin a darparu i'r fflatiau dwy a thair ystafell wely eu mynedfeydd eu hunain, a gerddi cefn a manau parcio. Cadarnhawyd mai diffyg galw yw prif bryder y Swyddogion, a bod nifer ddigonol o gartrefi ar gael yn ardal Fochriw. Mae'r galw am dai dwy ystafell wely eisoes yn gyfyngedig iawn. Roedd y pryderon eraill yn cynnwys wal gynnal fawr yng nghefn un o'r blociau y byddai angen ei hystyried, a'r costau fyddai'n gysylltiedig â hon.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, ac yn amodol ar yr uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfryd trwy godi dwylo.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 10.1 i gynnwys, y Swyddogion i edrych ar gyfleoedd i ddarparu eiddo masnachol newydd er mwyn hwyluso'r gwaith o ddymchwel y bloc o fflatiau yn 1 i 6, y Gelli, Fochriw, cyn gynted ag y bo modd, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog:

- (i) dymchwel y bloc a adwaenir fel 1 i 9 Heol yr Afon;
- (ii) cytuno mewn egwyddor i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddymchwel 1 i 6, y Grove, Fochriw, ond gohirio'r gwaith dymchwel hyd y daw prydles bresennol 1 a 2 y Grove i ben, hyd nes y canfyddir eiddo arall ar gyfer y busnes sy'n gweithredu yn y bloc ar hyn o bryd, neu hyd nes y bernir bod y rhwymedigaeth barhaus ar y Cyngor o ran cynnal a chadw'r adeilad segur bellach yn anymarferol yn ariannol;
- (iii) swyddogion i edrych ar gyfleoedd i ddarparu eiddo masnachol newydd er mwyn hwyluso'r gwaith o ddymchwel y bloc o fflatiau yn 1 i 6, y Gelli, Fochriw, cyn gynted ag y bo modd.

## **6. LEFELAU FFI OEDD GOFALWYR MAETH**

Roedd yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i roi ar waith strwythur ffioedd diwygiedig ar gyfer Gofalwyr Maeth Caerffili, gan olygu y bydd Cyngor yn gyson ag Awdurdodau Lleol eraill yn ne Cymru, ac a fydd yn cynorthwyo'r Gwasanaethau Plant i recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol.

Atgoffwyd y Cabinet am y pwysau gwasanaeth mae'r Gwasanaethau Plant yn eu hwynebu, oherwydd y teuluoedd sy'n ymgylwyno gydag anawsterau mwyfwy cymhleth, y cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal o fwy na 100, galwadau di-baid mwyfwy o achosion llys a'r gorwariant cyllidebol yn ei sgil. Mae'r pwysau hyn wedi cael eu gwaethygu gan ddiffyg argaeledd nifer ddigonol o leoedd gofal maeth mewnol. Oherwydd y cynnydd yn

nifer y plant sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Plant gomisiynu lleoliadau gofal maeth oddi wrth Asiantaethau Maethu Annibynnol, sy'n ychwanegu at y pwysau o ran cost a osodir ar yr Awdurdod. Yn ogystal, ac er gwaethaf gweithgarwch recriwtio parhaus, bu colled net yn nifer y lleoliadau sydd ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae proffil oedran y gofalwyr presennol yn awgrymu y bydd mwy ohonynt yn ymddeol dros y blynyddoedd i ddod.

Cyfeiriwyd at yr ymgyrch radio a gynhaliwyd i godi ymwybyddiaeth o faethu yng Nghaerffili, sydd wedi cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod nifer o ymgeiswyr posibl wedi dewis gwneud cais i Gynghorau eraill neu i'r Asiantaethau Maethu Annibynnol oherwydd y pecynnau tâl a gynigir. Nodwyd felly angen i Gyngor Caerffili gynnig lwfans lleoliadau mwy cystadleuol. Rhoddwyd braslun o'r strwythur taliadau presennol a nodwyd bod y ffi'n cynnwys naill ai lwfans prif-ffrwd neu lwfans gyrfa, ynghyd â lwfans plant. Adolygwyd y ffioedd hyn diwethaf yn 2004, ac mae'n rhoi gofalwyr prif-ffrwd o dan anfantais, o'u cymharu â rhai sy'n gofalu fel gyrfa a gofalwyr o dan Awdurdodau Lleol eraill.

Cynigiwyd felly y dylid symleiddio'r strwythur ffioedd yn unol â bandiau oedran yr Isafswm Lwfans Cenedlaethol a bennir pob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn hafalu'r taliadau a roddir i ofalwyr prif-ffrwd â'r rhai sy'n gofalu fel gyrfa. Nodwyd rhagor o fanylion am y strwythur arfaethedig yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig cynyddu'r ffi pob blwyddyn yn unol â chanran dyfarniad cyflog cytunedig y Cyngor, ac y dylid rhoi Lwfans Pen-blwydd gwerth £100 a Lwfans Nadolig gwerth £200. Esboniwyd bod y Fforwm Gofal Maeth yn awyddus iawn i ailgyflwyno'r lwfansau hyn. Dywedwyd hyn ar lafar wrth y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 1 Mai 2018, ac fe'i cefnogwyd ganddo.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd nodi y bydd pythefnos o lwfans gwyliau blynyddol yn daladwy i bob gofalwr. Oherwydd y cydnabuwyd bod nifer o'r rhai sy'n gofalu fel gyrfa ar hyn o bryd mewn perygl o fod o dan anfantais o weithredu'r ffioedd newydd oherwydd oedranau'r plant sydd wedi'u lleoli gyda hwy ar hyn o bryd, cynigiodd yr adroddiad y dylid diogelu'r lefel ffioedd bresennol hyd y daw'r lleoliad presennol i ben neu hyd y bydd y plentyn yn symud i fand oedran uwch (pa un bynnag a ddaw yn gyntaf).

Dywedwyd wrth y Cabinet bod ymgyngoriad wedi cael ei gynnal gyda Fforwm Gofal Maeth Caerffili, a bod gofalwyr prif-ffrwd yn cefnogi'r lefel o gydraddoldeb a grëir trwy'r ffioedd safonedig. Roedd rhywfaint o bryder ymysg rhai sy'n gofalu fel gyrfa, ond maent yn fodlon â'r ffordd y caiff ffioedd eu diogelu. Mae'r ddau grŵp yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth o'u hymdrechion sy'n deillio o'r lwfans gwyliau blynyddol a'r cynnydd blynyddol yn y ffioedd.

O ran y costau a nodwyd, cyfeiriwyd y Cabinet at baragraff 7 yn yr Adroddiad. Esboniwyd bod goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm ag ymdrin â'r heriau o ran tâl, a chaiff y defnydd o Adnoddau'r Gwasanaeth ei fonitro yn 2019/20.

Cofnodwyd y Cynghorydd Cuss ei ddiolch am waith caled ac ymroddiad y staff yn y Tîm Maethu. Roedd y Cabinet yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad yn llwyr a gofynnodd am ddiweddariad adolygu ymhen 12 mis a fydd yn monitro unrhyw gynnydd o ran effaith y cynnydd yn y ffioedd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cadw gofalwyr profiadol, a chefnogwyd yn llwyr trin gofalwyr yng Nghaerffili yn yr un modd â rhai mewn Awdurdodau Lleol eraill.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, ac yn amodol ar yr uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfryd trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 10.1 i gynnwys cyflwyno diweddariad adolygu i'r Cabinet ymhen 12 mis, a fydd yn monitro unrhyw gynnydd o ran effaith y cynnydd yn y ffioedd, y dylid cefnogi ac am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:

- (i) rhoi ar waith y strwythur ffioedd diwygiedig fel y'i nodwyd yn yr adroddiad;
- (ii) ailgyflwyno lwfansau pen-blwydd a Nadolig;
- (iii) rhoi ar waith ffordd o ddiogelu taliadau ffioedd i'r rhai sy'n gofalu fel gyrfa sydd â phlant iau wedi'u lleoli gyda hwy;

- (iv) cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth i ariannu'r cynigion ar gyfer gweddill 2018/19;
- (v) monitro'r arbedion a sicrheir oherwydd bod lleoliadau'n cael eu dychwelyd i ofalwyr Caerffili trwy gydol 2018/19 a'u defnyddio i ariannu effaith reolaidd y strwythur ffioedd diwygiedig o fis Ebrill 2019 ymlaen;
- (vi) cymeradwyo'r strwythur ffioedd diwygiedig, gan drefnu i roi'r taliadau ar waith yn syth o 1 Mehefin 2018 ymlaen;
- (vii) cytuno i gyflwyno diweddariad adolygu i'r Cabinet ymhen 12 mis a fydd yn monitro unrhyw gynnydd o ran effaith y ffioedd cynyddol.

## **7. MATER EITHRIEDIG**

Ystyriodd yr Aelodau'r dystysgrif prawf lles y cyhoedd oddi wrth y Swyddog Priodol a phenderfynasant, at ei gilydd, bod lles y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. Cytunwyd yn unfryd trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y tebygrwydd o ddatgelu iddynt wybodaeth a eithriwyd, fel y'i nodwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **8. PARC BUSNES OAKDALE – GWERTHIAN ARFAETHEDIG TIR SY'N EIDDO I'R CYNGOR I LYWODRAETH CYMRU**

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i werthiant arfaethedig tir sy'n eiddo i'r Cyngor i Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 11.3, fel y cytunwyd arno yn y Cyfarfod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfryd trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo'r argymhellion ym mharagraffau 11.1 ac 11.2, gydag argymhelliad ychwanegol yn 11.3, fel y cytunwyd yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35 pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 13 Mehefin 2018.

---

CADEIRYDD

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol





## CABINET – 13TH JUNE 2018

**SUBJECT: CABINET FORWARD WORK PROGRAMME**

**REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR – SOCIAL SERVICES**

---

### **1. PURPOSE OF REPORT**

- 1.1 To seek Cabinet endorsement of the Forward Work Programme for the period June 2018 to January 2019.

### **2. SUMMARY**

- 2.1 The report outlines a proposed Forward Work Programme of future Cabinet reports.
- 2.2 The Forward Work Programme is updated on a weekly basis to reflect any amendments that are made to it since it was first agreed on 22nd January 2014.

### **3. LINKS TO STRATEGY**

- 3.1 The Council is required to publish a Cabinet Forward Work Programme to assist in open and transparent decision-making.
- 3.2 This section would highlight how the recommended course of action contributes to the following Well-being Goals within the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015:
- *A more equal Wales*

### **4. THE REPORT**

- 4.1 The Cabinet Forward Work Programme sets out the key reports that Cabinet expects to receive in the coming months. It is a legal requirement that such programmes are published. The programme is an important way of tracking progress against targets set in the Council's Improvement Plan.
- 4.2 Appendix 1 to this report sets out details of the Cabinet Forward Work Programme for the period June 2018 to January 2019.
- 4.3 It should be noted that urgent and unanticipated reports could be added to the Cabinet Work Programme.
- 4.4 Members will be aware that, following the Scrutiny review and recommendations approved by Council on 6th October 2015, that it was agreed that the format of the Forward Work Programme will be reviewed so that it gives more detailed narratives. This has been undertaken and presented at Appendix 1.

## **5. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS**

- 5.1 This report contributes to the Well-being Goals as set out in Links to Strategy above. It is consistent with the five ways of working as defined within the sustainable development principle in the Act in that it ensures that the Cabinet Forward Work Programme is regularly published and publically available, thus informing the public and stakeholders of upcoming reports and key issues and offering them the opportunity to attend and observe executive decisions, thus promoting openness and transparency.

## **6. EQUALITIES IMPLICATIONS**

- 6.1 The principles of good governance are directly linked to the Council's Strategic Equality Objectives, stemming from duties under the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Equalities Implications are a standard part of all committee reports in order to ensure that due consideration has been given to the views of individuals and groups from the communities of Caerphilly county borough, regardless of their backgrounds and circumstances.

## **7. FINANCIAL IMPLICATIONS**

- 7.1 There are no financial implications associated with this report.

## **8. PERSONNEL IMPLICATIONS**

- 8.1 There are no personnel implications associated with this report.

## **9. CONSULTATIONS**

- 9.1 There are no consultation responses that have not been reflected in this report.

## **10. RECOMMENDATIONS**

- 10.1 It is recommended that Cabinet approve the Forward Work Programme as outlined in Appendix 1.

## **11. REASONS FOR THE RECOMMENDATIONS**

- 11.1 To satisfy legislative requirements and to ensure more transparent and effective decision-making.

## **12. STATUTORY POWER**

- 12.1 Local Government Acts 1972 and 2000.

Author: Cath Forbes-Thompson, Interim Head of Democratic Services  
Consultees: Corporate Management Team

Appendices:  
Appendix 1 Cabinet Forward Work Programme



## Cabinet Forward Work Programme (Presented to Cabinet)

13TH JUNE 2018	Key Issues	Cabinet Members
Welsh Language Annual Reports.	To update Members on the progress made during the financial year 2017/18 against targets in the Council's current Welsh Language Scheme and seek Cabinet approval for submission of the annual monitoring and improvement reports to the relevant commissions before the deadline date.	Councillor B. A. Jones
Appointment of Public and Agricultural Analysts.	To seek Cabinet approval to appoint the Public and Agricultural Analysts	Councillor E. Stenner
Risca – Tesco Development Section 106 Agreement – Commitment Of Funding.	To seek Cabinet approval of the priority projects to be implemented in Risca utilising the Section 106 (S106) funding resulting from the large Tesco store development.	Councillor S. Morgan

6

27TH JUNE 2018	Key Issues	Cabinet Members
10 Year Sport and Active Recreation Strategy	To Seek Cabinet approval to go out to Consultation.	Councillor N. George
Provisional Outturn for 2017/18.	The report will provide Cabinet with details of the provisional revenue budget outturn for the 2017/18 financial year prior to the annual audit by the Authority's External Auditors Grant Thornton.	Councillor B. Jones
Cwmcarn High Closure – Update.	To provide an update to members on the closure of Cwmcarn High School. This will include financial projections, pupil transfers and the plan for closure of the school site.	Councillor P. Marsden
Federation of Schools.	To seek cabinet approval to move to formal consultation, in partnership with each Governing Body, for the federation of the following groups of school:  Park Primary School and Gilfach Fargoed Primary School. Fleur de Lys Primary School and Pengam Primary School Bedwas Junior School and Rhydri primary School Ynysddu Primary School and Cwmfelinfach Primary School	Councillor P. Marsden



## Cabinet Forward Work Programme (Presented to Cabinet)

Social Worker Salaries		Councillor C. Cuss
------------------------	--	--------------------

11TH JULY 2018	Key Issues	Cabinet Members
Corporate Risk Register.	To provide an update of the Corporate Risk Register in accordance with the Council's Risk Management Strategy. The updated Corporate Risk Register (CRR) is presented to Audit Committee so there is opportunity for the Committee to satisfy itself that appropriate arrangements are in place for the council's risk management processes to be regularly and robustly monitored and scrutinised.	Councillor C. Gordon
Street Lighting.	To agree a future strategy.	Councillor S. Morgan
Pontllanfraith Leisure Centre.	To agree the future of the Leisure Centre in the context of the Leisure Review.	Councillor N. George
Decriminalisation of Parking Proposals (Stage 2).	To confirm the full scope for CPE implementation, timescale, how any related issues are to be addressed, further delegations required and what level of public engagement is appropriate.	Councillor S. Morgan
Recreation Ground Charities	To obtain Cabinet approval to endorse that Officers enter into correspondence and discussion with the Charity Commission as to the possibility of making an application for scheme altering or replacing the governing documents of the Charities.	Cabinet as Trustees
Review of Town Centre Management.	To seek Cabinet approval for revision of the Council's current Town Centre Management model.	Councillor S. Morgan
Home Loans Report		Councillor L. Phipps

25TH JULY 2018	Key Issues	Cabinet Members
Sheltered Accommodation	To provide members with proposals for remodelling a small number of sheltered housing schemes in the eastern valley, in order for members to consider a number of options which may include improvements, remodelling, alternative use and possibly demolition.	Councillor L. Phipps



## Cabinet Forward Work Programme (Presented to Cabinet)

Asset Management		Councillor L. Phipps
Affordable Homes New Build Proposals.	To confirm the new build Council Housing programme, including the preferred delivery option in order for the Council to utilise the Affordable Housing Grant funding that has been allocated to CCBC.	Councillor L. Phipps
Hackney Carriage Fare Increase/Amendment	To consider the Tariff of fares for Hackney Carriages recommended by the Taxi and General Licensing Committee, approve publication and give delegated powers to the Taxi and General Committee to consider any objections and set the tariff.	Councillor E. Stenner

Page 11

09TH SEPTEMBER 2018	Key Issues	Cabinet Members
Air Quality Options Appraisal.		Councillor E. Stenner
Strategic Equality Plan – Annual Monitoring and Improvement Report 2017-2018.	To update Members on the progress made during the financial year 2017/18 against targets in the Council's current Strategic Equality Plan and seek Cabinet approval for submission of the annual monitoring and improvement reports to the relevant commissions before the deadline dates.	Councillor E. Stenner

14TH NOVEMBER 2018	Key Issues	Cabinet Members
10 Year Sport and Active Recreation Strategy	To seek Cabinet's endorsement of the Draft Sport and Leisure Strategy.	Councillor N. George
Town Centre Events Programme.	To seek Cabinet approval for revision of the Council's current Town Centre Management model.	Councillor S. Morgan

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwiadol



## CABINET – 13EG MEHEFIN 2018

**PWNC: ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2017-2018 AC ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL AR STRATEGAETH YR IAITH GYMRAEG 2017-2022**

### **ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL DROS DRO - CYMUNEDAU**

---

#### **1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1 Er mwyn hysbysu'r aelodau a cheisio eu cadarnhad o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2017-2018 yn erbyn pedwar maes penodol o waith yr iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.
- 1.2 Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau ar 30ain Mehefin 2018, fel sy'n ofynnol gan Safon 158 yr Iaith Gymraeg.
- 1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ar y Strategaeth Gymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 ar gais y Cabinet.

#### **2. CRYNODEB**

- 2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion yr Iaith Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth gyfredol.
- 2.2 Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2017-2018 yn cwmpasu pedwar maes allweddol gofynnol.
  - Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd
  - Sgiliau Iaith Staff
  - Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Gymraeg
  - Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag
- 2.3 Yn ogystal â'r uchod, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol hefyd ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022, ar gais y Cabinet pan gafodd ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2017, sydd ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiad 1.

#### **3. CYSYLLTIADAU Â'R STRATEGAETH**

- 3.1 Mae'r iaith Gymraeg yn themâu trawsbynciol o'r Nodau Llesiant yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefn y Cyngor, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y polisiâu cyhoeddus a mewnlol sy'n cwmpasu aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:
  - Cymru sy'n Fwy Cyfartal
  - Cymru o Gymunedau Cydlynus
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

3.2 Mae gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel amcan cydraddoldeb strategol ynddo'i hun, gysylltiadau uniongyrchol â nifer o bolisiau a strategaethau cyfredol eraill, o fewn y Cyngor ac o ran gweithio mewn partneriaeth.

3.3 Hefyd mae strategaethau neu reoliadau Llywodraeth Cymru y mae gwaith iaith Gymraeg y Cyngor yn cysylltu â hwy, gan gynnwys "**Mwy Na Geiriau / More Than Words**" (Strategaeth iaith Gymraeg Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol), "**Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**" (Strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru) a **Ffyniant i Bawb**.

#### 4. YR ADRODDIAD

4.1 Rhaid cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg erbyn 30<sup>ain</sup> Mehefin bob blwyddyn yn unol â Safon 158.

4.2 Disgwylir i'r adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-2018, yn unol â'r fframwaith rheoleiddio, gyhoeddi gwybodaeth yn unig ar bedair prif faes gwaith.

4.3 Mae'r adroddiad blynyddol felly'n cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol yn unol â'r Safonau a ddangosir isod:

Manylion y Gofyniad Adrodd	Rhif y Safon Berthnasol (ac is-gymal)
<p><b>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</b></p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnoch i gydymffurfio â hwy.</p>	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
<p><b>Sgiliau iaith Staff</b></p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwyd yn unol â safon 151);</p>	170 (2) (a) 151
<p><b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b></p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gursiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>O gynigiwyd fersiwn Cymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, canran y nifer yn mynychu'r cwrs a fynychodd y fersiwn Cymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	170 (2) (b) 170 (2) (c) 152
<p><b>Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag</b></p> <p>Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag yr ydych wedi eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</li> <li>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd</li> <li>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol</li> <li>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</li> </ul> <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	170 (2) (ch) 154



4.4 Yn gryno, mae'r adroddiad blynyddol yn amlygu'r wybodaeth perfformiad canlynol;

- Cawsom 4 cwyn ffurfiol a 4 Ymchwiliad ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg. O'r 4 gwyn ffurfiol a dderbyniwyd, daeth dwy o'r rhain yn Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg. Ymatebwyd i'r holl gwynion o fewn terfynau amser corfforaethol a chawsant eu cadarnhau.

O'r ddwy gwyn a ddaeth yn Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, rydym wedi gwella prosesau ac wedi sicrhau bod y testun ar ein gwefan yn ddwyieithog.

- Roedd ychydig o gynnydd yn nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg gyda ffigur o 74, yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno'r cyrsiau blasu mewnol 10 wythnos a gyflwynwyd gan y Swyddog Hyfforddiant a Hyrwyddo Cydraddoldeb. Darparwyd y rhan fwyaf o gyrsiau gan ganolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen, yn enwedig y derbynfeydd a restrir o dan Safonau 65 a 65A, a fydd yn cael eu gweithredu o 30<sup>ain</sup> Medi 2018.
- Hysbysebwyd cyfanswm o 565 o swyddi gwag. Hysbysebwyd 6 swydd yn Gymraeg Hanfodol, a phob un o fewn y Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Hysbysebwyd 8 o swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg, aseswyd 529 o swyddi yn Gymraeg dymunol ac 1 lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg. Mae pob swydd yn ddiodyfyn gyda Cymraeg yn ddymunol o leiaf.

Yn anffodus, hysbysebwyd 21 o swyddi gwag heb yr Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg angenrheidiol, sy'n torri Safon 136;

### **Safon 136**

*Pan fyddwch yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys –*

- (a) *bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;*
- (b) *bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;*
- (c) *bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu*
- (ch) *nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.*

4.5 Mae Pennaeth Gwasanaethau Pobl wedi cytuno na fydd swyddi newydd na swyddi gwag bellach yn cael eu hysbysebu heb yr Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg angenrheidiol. Bydd diweddariad hefyd i'r Canllawiau Recriwtio a Dethol sydd ar gael sy'n rhoi gwybodaeth gliriach i reolwyr sy'n recriwtio ynghylch ymgymryd ag Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg.

4.6 Yn ychwanegol at adrodd ar y pedair prif faes gwaith, Atodiad 1 yr adroddiad yw'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022.

4.7 Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2017 gyda chais y Cabinet am adroddiad cynnydd blynyddol ar y 6 Maes Strategol. Mae angen y Strategaeth o dan Safon 145 a rhaid i'r Cyngor gyflawni Strategaeth yr Iaith Gymraeg trwy weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn y fwrdeistref sirol. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd gan y partneriaid a ymatebodd i'r cais am wybodaeth cynnydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cynnydd

4.8 Mae nifer o feysydd lle mae gweithio mewn partneriaeth yn digwydd rhwng adrannau'r Cyngor a sefydliadau partner cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod y camau a nodir yn y Strategaeth yn cael eu darparu.

Mae'r Fforwm Iaith Gymraeg hefyd wedi sicrhau cyllid i ddatblygu llyfryn ar sut i fod yn ddwyieithog, gan roi taith o enedigaeth ar ba opsiynau sydd ar gael i dderbyn gofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ysgolion er mwyn helpu i fagu plant dwyieithog.

## **5. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

- 5.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y'u nodir yn y Dolenni i'r Strategaeth uchod, yn enwedig y cyfrifoldeb a roddir ar gyfrif cyhoeddus i gyfrannu at Gymru sy'n Fwy Gyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru â ddiwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae'n gyson â'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf.

## **6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

- 6.1 Cynhaliwyd asesiadau ac ymgynghoriad llawn Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth ei ddatblygu, felly ni wnaed asesiad llawn ar yr adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad yn asesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor.

## **7. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 7.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd symud yr agenda yn ei flaen yn golygu goblygiadau ariannol, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.
- 7.2 Y gost o gefnogi staff i fynyachu cyrsiau i ddysgu Gymraeg ar gyfer y gweithle ar gyfer blwyddyn 2017-2018, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o dan y Safonau, oedd £6,159.38.

## **8. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

- 8.1 Nid oes goblygiadau personél i'r adroddiad hwn, er bod hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg fynd yn ei flaen. Mae hyn yn berthnasol i adran 4 yr adroddiad blynyddol, sy'n canolbwyntio ar Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag.

## **9. YMGYNGHORIAD**

- 9.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar draws y meysydd gwasanaeth am weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2017-2018. Roedd nifer o'r swyddogion a ddangosir ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn ymgynghoreion yn cyfrannu gwybodaeth adrodd benodol ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

## **10. RHESYMAU AM YR ARGYMHELLION**

- 10.1 Argymhellir bod aelodau'r Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol ac yn cymeradwyo cyhoeddi'r wybodaeth hon fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfio â, Safonau'r Gymraeg perthnasol.

## **11. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 11.1 Drwy gasglu'r holl wybodaeth ofynnol ynghyd yn yr adroddiad hwn o feysydd gwasanaeth y Cyngor ac o weithio mewn partneriaeth, ac wedyn eu cyhoeddi, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth iaith Gymraeg gyfredol.

## 12. PŴER STATUDOL

### 12.1 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

- Awdur - Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg)  
Est 4404 [cullima@caerffili.gov.uk](mailto:cullima@caerffili.gov.uk)
- Ymgynghoreion - Cyng Barbara Jones – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid,  
Perfformiad a Llywodraethu  
Cyng James Pritchard – Pencampwr Cydraddoldeb  
Christina Harrhy – Prif Weithredwr Dros Dro  
Mark S Williams – Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau  
Dave Street – Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai  
Keri Cole – Prif Swyddog Addysg  
Lynne Donovan – Pennaeth Gwasanaethau Pobl  
Rob Hartshorn – Pennaeth Polisi a Diogelwch y Cyhoedd  
Kathryn Peters – Rheolwr Polisi Corfforaethol  
Lisa Lane – Swyddog Monitro Dros Dro  
Ros Roberts – Rheolwr Perfformiad
- Papurau Cefndir - Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2016-2020  
Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2022  
Hysbysiad Cydymffurfio - Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011  
Dogfennau Cyfarwyddyd Amrywiol  
*(Mae'r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth ar Borthol y Mewnrwyd ac ar tudalennau perthnasol ar <http://www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb>)*
- Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2017-2018

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017 - 2018

Paratowyd yn unol â gofynion



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

30<sup>ain</sup> Mehefin 2018

A greener place  
Man gwyrddach



## Cynnwys

<b>Adran</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>1. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</b>	<b>3</b>
<b>2. Sgiliau Iaith Staff</b>	<b>10</b>
<b>3. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b>	<b>16</b>
<b>4. Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad 1</b> Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar y Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022	<b>20</b>

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn ar gyfer 2017-2018 yn cynnwys y pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac mae'n dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac i aelodau'r staff.

<b>Manylion Gofynion i Adrodd</b>	<b>Rhif y Safon Berthnasol (ac is-gymal)</b>
<p><b>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</b></p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioc yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaid â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	<p>147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)</p>
<p><b>Sgiliau Iaith Staff</b></p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151);</p>	<p>170 (2) (a) 151</p>
<p><b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b></p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	<p>170 (2) (b) 170 (2) (c) 152</p>
<p><b>Recriwtio i Swyddi Gwag</b></p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</li> <li>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd</li> <li>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol</li> <li>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</li> </ul> <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	<p>170 (2) (ch) 154</p>

Daeth 5<sup>ed</sup> Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ben ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2016 ac mae wedi'i ddisodli gan ymrwymiad yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 diweddaraf y Cyngor. Mae pedwar o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys yn benodol materion y Gymraeg, sef:

Amcan Cydraddoldeb Strategol 4	-	Gwella Mynediad Cyfathrebu
AmcanCydraddoldeb Strategol 6	-	Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
Amcan Cydraddoldeb Strategol 10	-	Amrywiaeth yn y Gweithle
Amcan Cydraddoldeb Strategol 11	-	Cydymffurfiaeth Gorfforaethol

Mae Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon ynghylch Safonau'r Gymraeg ers mis Ionawr 2014, ac wedi derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n llawn ynghylch cynnydd cyn y dyddiad Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, sef 23<sup>ain</sup> Ionawr 2017.

Caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei gyhoeddi arlein erbyn 30<sup>ain</sup> Mehefin 2018.

Mae hefyd ar gael i'w lawrlwytho mewn fformat pdf ar wefan y Cyngor ar y dudalen benodol ar yr iaith Gymraeg: [www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb](http://www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb)

# 1. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd

Mae **Amcan Cydraddoldeb Strategol 11 - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol** y Cyngor yn ymrwymo'r Cyngor i fonitro cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg, a chyhoeddwyd canllawiau ar gyfer staff ar Borthol y staff ac ar y wefan allanol, sy'n rhoi manylion ynghylch sut y dylai staff ymdrin â'r materion hyn.

Yn ystod 2017-2018, derbyniwyd **7** cais am wasanaeth a **4** cwyn, ac roedd pob un ohonynt yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn terfynau amser ac fe'u cadarnhawyd.


Roedd 4 o'r 7 cais am wasanaeth yn ymwneud â gwallau ar arwyddion ac arwyddion ffyrdd. Cafwyd trafodaethau gyda'r adrannau perthnasol i sicrhau bod arwyddion ac arwyddion ffyrdd yn cael eu gwirio gan y Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg cyn eu creu.

Mae data cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg (pan fo'n berthnasol) yn llunio rhan o'r adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses Cwynion Corfforaethol, ac mae'r Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) yn rhan o'r Grŵp Dysgu o Gwynion sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod cwynion penodol a thrawsbynciol.

Ym mis Ionawr 2018 gwnaethom gyfarfod â Swyddog Cydymffurfiaeth o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'n perfformiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg. Roedd rhan o'r adborth a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r angen i ni gynnwys testun ar ein tudalen we Safonau'r Gymraeg, a fyddai'n golygu bod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o ble a sut i wneud cwyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg neu methiant ar ran y Cyngor i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Mae'r testun ychwanegwyd nawr yn cynnwys dolen i wefan Comisiynydd y Gymraeg;

## [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Safonau'r Gymraeg](#)



▶ Adroddiad Hysbysiad Cydymffurfio CBSC 30.03.16 (PDF)

### Strategaeth Iaith Gymraeg 2017 - 2022

Yn esbonio sut mae'r awdurdod lleol, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Ewch i'n adran Strategaeth Iaith Gymraeg am fwy o fanylion.

### Cwynion Iaith Gymraeg

Os hoffech wneud cwyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg neu fethiant ar ran y Cyngor i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, defnyddiwch weithdrefn gwyno'r Cyngor trwy'r ddolen ganlynol - [Cwynion am un o wasanaethau'r cyngor](#).

Mae gennych hefyd hawl i gyfeirio unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg at Gomisiynydd y Gymraeg:

[Gwefan Comisiynydd y Gymraeg](#)



## Diffiniadau Cyffredinol

Mae cwynion corfforaethol yn gwynion o ganlyniad i fethiant o ran proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai, yn y pen draw, gael eu hanfon at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu at Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft.

Caiff materion cod ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff eu trin drwy gyfrwng prosesau adnoddau dynol mewnol. Fodd bynnag, mae cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhywfaint o hybrid, oherwydd gall methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod o staff tuag at grŵp penodol, er enghraifft.

## Cwynion yn ôl Cyfadran

CYFADRAN	IAITH GYMRAEG
Prif Weithredwr	0
Gwasanaethau Corfforaethol	3*
Cymunedau	2*
Gwasanaethau Cymdeithasol	0
<b>CYFANSYMLIAU</b>	<b>4</b>

\* Roedd un o'r cwynion yn torri ar draws dau Gyfadran

## Themâu ac Amserlenni'r Cwynion

Mae pob un o'r **4** cwyn Iaith Gymraeg yn cyfeirio at fethiannau o ran Safonau'r Gymraeg o fethu â darparu gwybodaeth neu arwyddion yn ddwyieithog i drin yr Iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymatebwyd i'r **4** cwyn a dderbyniwyd o fewn terfynau amser corfforaethol.

Y targed corfforaethol ar gyfer ymateb yn llawn i gwyn yw 20 diwrnod gwaith, felly mae'r perfformiad cyffredinol a ddangosir yma yn dda iawn.

## Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cawsom **3** Ymchwiliad newydd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac roedd gennym **2** arall a oedd yn mynd rhagddynt o'r flwyddyn ariannol flaenorol, y mae manylion amdanynt wedi'u rhestru isod;

### Ymchwiliadau Parhaus ers 2016-2017

#### CSG122

Page 24

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Dilynodd Comisiynydd y Gymraeg <b>CSG83</b> o dan <b>CSG122</b> a oedd yn ymwneud â;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dilynodd Comisiynydd y Gymraeg CSG83 o dan CSG122 a oedd yn ymwneud â</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Safon 81</b> – methwyd ar y sail bod gwersi nofio a ddarparwyd yn Gymraeg wedi eu hysbysu yn Saesneg yn unig. Rhaid cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safon hon.</li> <li><b>Safon 84</b> – methwyd ar y sail nad yw'r Cyngor yn darparu gwersi nofio yn Gymraeg ar bob lefel, ond maent ar gael yn Saesneg. Rhaid paratoi cynllun gweithredu sy'n amlinellu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod gwersi nofio yn cael eu cynnig/ar gael yn Gymraeg.</li> <li><b>Safon 86</b> – ni fethwyd gan nad oedd unrhyw gyrsiau addysg mewn perthynas â gwersi nofio wedi'u datblygu ers dyddiad gosod y Safonau.</li> </ul>	<p>Cynllun Gweithredu wedi'i gyflwyno a'i gytuno gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Roedd y pwyntiau gweithredu yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Edrych ar ddatblygu a gweithredu cynllun marchnata a fydd yn ein galluogi i gynnig Gwersi Nofio Iaith Gymraeg yn ein pyllau o fis Medi 2018. Bydd hyn yn cynnwys cynllun marchnata cydlynol i dargedu ysgolion Cymraeg a'r cyhoedd yn gyffredinol trwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan CBSC.</li> <li>I hyrwyddo'r gwersi nofio cyfrwng Cymraeg yn Gymraeg a Saesneg, drwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol, posteri a thafleenni.</li> <li>Cwrdd â chydweithwyr Menter Iaith a'r Urdd i edrych ar sut y gallant ein helpu i hyrwyddo ein gwersi nofio Cymraeg sy'n cael eu cynnig i drigolion CBSC.</li> <li>Cysylltu ag awdurdodau lleol agos cymdogion i gynnig, yn y lle cyntaf, rhaglen a rennir o Wersi Nofio Iaith Gymraeg.</li> </ul>

## CSG173

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwyn yn honni methiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Mewn perthynas â'r wefan <a href="http://www.caerphillyasks.org.uk">www.caerphillyasks.org.uk</a></li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li><b>Safon 52</b> – methwyd oherwydd nad oedd cynnwys y wefan yn ddwyieithog ac felly cafodd yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</li><li><b>Safon 56</b> – methwyd oherwydd nad oedd y rhyngwyneb a'r dewislenni ar y wefan yn Gymraeg.</li></ul>	<p>Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg 28 diwrnod i'r Cyngor sicrhau bod;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>testun pob tudalen o'r wefan ar gael yn Gymraeg.</li><li>pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gwbl weithredol ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg ar y wefan.</li><li>y rhyngwyneb a bwydlenni ar bob tudalen o'r wefan yn Gymraeg.</li></ul> <p>Cyfieithwyd yr holl bwyntiau uchod a diweddarwyd y wefan o fewn y 28 diwrnod a roddwyd.</p>

## Ymchwiliadau Newydd 2017-2018

### CSG213

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod llythyr Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai wedi cael ei anfon yn Saesneg yn unig er i'r person gael ei gofnodi ar y system gyda'r Gymraeg fel dewis iaith ar gyfer gohebiaeth</li> <li>• bod arwyddion Saesneg yn unig yn cael eu harddangos mewn rhai llyfrgelloedd</li> <li>• bod cyhoeddiadau cyhoeddus a wnaed mewn llyfrgelloedd yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Safon 4</b> – ni fethwyd yn yr achos hwn gan nad oedd y llythyr a anfonwyd allan yr un peth.</li> <li>• <b>Safon 5</b> – methwyd oherwydd nad oedd y llythyr wedi'i anfon yn Gymraeg yn unol â dewis iaith y person. Rhaid cyflwyno Cynllun Gweithredu Drafft ar y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod llythyr yn cael eu hanfon yn ddwyieithog yn y dyfodol.</li> <li>• <b>Safon 7</b> – methwyd oherwydd nad oedd y llythyr a anfonwyd yn cynnwys datganiad bod y Cyngor yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Datganiad i'w gynnwys ar bob templed gohebiaeth yn y dyfodol.</li> <li>• <b>Safon 61</b> – methwyd oherwydd roedd arwydd Aalanfa Dân wedi'i chodi mewn llyfrgell. Rhaid sicrhau bod testun ar bob arwydd a godir yn y llyfrgelloedd yn ddwyieithog ac ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.</li> <li>• <b>Safon 87</b> – methwyd oherwydd peidio â chydymffurfio â'r Safon hon yn yr achos hwn gan fod y cyhoeddiadau uchelseinydd mewn dwy lyfrgell yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig. Gwasanaeth Llyfrgell i sicrhau bod pob cyhoeddiad cyhoeddus yn cael eg wneud yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.</li> </ul>	<p>Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu drafft mewn perthynas â methu Safonau 5 a 7 i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ac rydym yn aros am benderfyniad.</p> <p>Nid yw ein system bresennol yn cynhyrchu Hysbysiadau Penderfyniad dwyieithog ar gyfer Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor. Y weithdrefn gyfredol yw y bydd y rhai sy'n gofyn am ohebiaeth mewn iaith arall yn cael eu cofnodi ar y system i sicrhau bod y gohebiaeth yn cael ei dynnu a'i gyfieithu cyn dafnon.</p> <p>Mae ffurflenni hefyd yn cael eu diwygio i ofyn am ddewis iaith yr hawlwr yn y cyswllt cyntaf.</p> <p>Mewn perthynas â methu Safonau 61 a 87, rhoddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg 28 diwrnod i ni weithredu'r newidiadau.</p> <p>Cynhaliwyd archwiliad o bob arwydd o fewn llyfrgelloedd ac mae'r rhai yn Saesneg yn unig wedi'u dileu, eu cyfieithu a'u gosod mewn lle.</p> <p>Mae'r cyhoeddiadau cyhoeddus a wnaed trwy uchelseinydd mewn llyfrgelloedd wedi'u cyfieithu ac maent bellach yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.</p>

## CSG256

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bod y Cyngor wedi anfon e-fwletin Saesneg yn unig ynghylch Newyddion Llyfrgell</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Safon 4</b> - methu â chydymffurfio oherwydd bod yr e-fwletin a anfonwyd yn wreiddiol yn Saesneg yn unig.</li></ul>	<p>Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg 3 mis i'r Cyngor i sicrhau, pan anfonir e-fwletin at sawl person trwy e-bost, bod fersiwn Gymraeg yn cael ei hanfon ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Mae hyn bellach yn arfer cyfredol.</p> <p>O ganlyniad i hyrwyddo'r gwasanaeth e-fwletin a gofyn i danysgrifwyr y gwasanaeth roi gwybod i'r Cyngor am eu dewis iaith, bu cynnydd o 101.9% (161) yn nifer y tanysgrifwyr i'r e-fwletin iaith Gymraeg. Cyfanswm y tanysgrifwyr Cymraeg ar hyn o bryd yw 319.</p>

## CSG304

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>bod ffurflen adrodd ar-lein Gwybodaeth Cyngor a Chymorth (IAA) ar wefan y Cyngor a gyflwynwyd yn Gymraeg heb dderbyn ymateb. Hefyd, mae rhywfaint o destun ar y dudalen we yn Saesneg yn unig.</li></ul>	<p>Bydd yr ymchwiliad yn penderfynu a yw'r Cyngor wedi methu'r Safonau canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"><li><b>Safon 1</b> - Os ydych chi'n derbyn gohebiaeth gan berson yn Gymraeg, rhaid i chi ymateb yn Gymraeg (os oes angen ymateb) oni bai bod y person wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg.</li></ul> <p><b>Safon 52</b> - rhaid i chi sicrhau bod -</p> <ul style="list-style-type: none"><li><b>(a)</b> testun pob tudalen eich gwefan ar gael yn Gymraeg</li><li><b>(b)</b> pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gwbl weithredol, a</li><li><b>(c)</b> nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg ar eich gwefan</li></ul>	<p>Yn disgwyl am ohebiaeth gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn gofyn i ni gyflwyno tystiolaeth i'w ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwn.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r swyddog cwynion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad mewnol ac yn casglu tystiolaeth yn barod ar gyfer cais y Comisiynydd.</p>

## 2. Sgiliau Iaith Staff

Mae'r gallu i gofnodi materion iaith Gymraeg o ran data a dadansoddi staff yn rhan annatod o'r system gyflogres yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dangosir ffigurau diwedd blwyddyn ariannol hyd at 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018 isod a throsodd.

O'i gymharu â'r llynedd, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd wedi gostwng - mae'r gwahaniaeth hwn yn ddyledus, yn rhannol, i'r ffaith bod niferoedd cyffredinol staff y Cyngor wedi gostwng ers yr un cyfnod y llynedd.

### PROFFIL IEITHYDDOL Y GWEITHLU: GALLU YN Y GYMRAEG YN ÔL MAES GWASANAETH A RHUGLDER AR 31<sup>AIN</sup> MAWRTH 2018

#### i) FFIGYRAU STAFF CYFFREDINOL

	2017-2018			2016-2017		
	Cyfanswm y staff	Siaradwyr Cymraeg	%	Cyfanswm y staff	Siaradwyr Cymraeg	%
<i>Gwasanaethau Corfforaethol</i>						
Cyllid Corfforaethol	133	11	8.27	132	12	9.09
Adnoddau Dynol	99	6	6.06	107	6	5.61
TG ac Ymgysylltu â Dinasyddion	98	6	6.12	101	7	6.93
Y Gyfraith a Llywodraethu	58	7	12.06	59	7	11.86
Gwasanaethau Caffael	63	9	14.28	67	9	13.43
Gwasanaethau Eiddo	59	5	8.47	60	5	8.33
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>514</b>	<b>44</b>	<b>8.56</b>	<b>531</b>	<b>46</b>	<b>8.66</b>
<i>Gwasanaethau Cymdeithasol</i>						
Gwasanaethau Oedolion	1,127	46	4.08	1,115	42	3.77
Cymorth Busnes	26	1	3.85	29	3	10.34
Gwasanaethau Plant	294	17	5.78	297	18	6.06
Diogelwch y cyhoedd	740	22	2.97	728	25	3.43
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>2,187</b>	<b>85</b>	<b>3.89</b>	<b>2,176</b>	<b>87</b>	<b>4.00</b>

	2017-2018			2016-2017		
<i>Cymunedau</i>	Cyfanswm y staff	Siaradwyr Cymraeg	%	Cyfanswm y staff	Siaradwyr Cymraeg	%
Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	1,291	16	1.24	1,154	11	0.95
Peirianeg a Chludiant	230	7	3.04	247	8	3.24
Cynllunio ac Adfywio	331	21	6.34	395	36	9.11
Cartrefi Caerffili	563	47	8.35	523	42	8.03
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>2,370</b>	<b>89</b>	<b>3.75</b>	<b>2,284</b>	<b>95</b>	<b>4.16</b>
<b><i>Cyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes</i></b>						
Dysgu, Addysg a Chynhwysiant	375	75	20.00	424	90	21.23
Dysgu Gydol Oes a Chynllunio a Strategaeth	359	41	11.42	440	46	10.45
Ysgolion	3,492	90	2.58	3,544	91	2.57
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>4,189</b>	<b>200</b>	<b>4.77</b>	<b>4,365</b>	<b>223</b>	<b>5.11</b>
<b><i>CYFANSYMLIAU'R CYNGOR</i></b>	<b>8,682</b>	<b>402</b>	<b>4.63</b>	<b>8,767</b>	<b>436</b>	<b>4.97</b>

## NODIADAU

- Yn unol ag adroddiadau blaenorol, mae'r ffigurau yn **2 i)** uchod yn gyfanswm nifer y bobl fesul cyfadran sydd wedi llenwi'r ffurflen Sgiliau Ieithyddol gan nodi sgiliau'r Iaith Gymraeg.
- Mae'r ffigurau a ddangosir yn **2 ii)** i **2 v)** sy'n dilyn, yn cyfeirio at lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg fesul maes gwasanaeth ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â'r cyfansymiau a ddangosir yn **2 i)** oherwydd er enghraifft yn yr isadran Cyllid Corfforaethol (yr ail adran isod yn **2 ii)**, mae'r golofn "Gweddol Dda" yn cyfeirio at 2 aelod o staff ond mae un ohonynt yn gallu darllen a siarad Cymraeg yn "Gweddol Dda", a'r llall ond yn gallu darllen Cymraeg yn "Gweddol Dda".



## ii) GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Cyllid Corfforaethol	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	-	2	2	5	2
Siarad/Defnyddio	-	1	1	8	1
Deall	-	-	3	7	1
Ysgrifennu	-	-	2	7	2
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>11</b>				

Adnoddau Dynol	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	-	3	-	2	1
Siarad/Defnyddio	1	2	-	3	-
Deall	1	2	-	3	-
Ysgrifennu	-	3	-	-	3
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>6</b>				

TG ac Ymgysylltu â Dinasyddion	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	1	1	-	4	-
Siarad/Defnyddio	1	1	-	4	-
Deall	2	-	-	4	-
Ysgrifennu	2	-	-	4	-
<b>Cyfanswm y staff</b>	<b>6</b>				

Y Gyfraith a Llywodraethu	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	-	2	1	3	1
Siarad/Defnyddio	-	2	1	3	1
Deall	-	2	1	4	-
Ysgrifennu	-	2	1	3	1
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>7</b>				

Gwasanaethau Eiddo	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	1	-	-	4	-
Siarad/Defnyddio	1	-	1	3	-
Deall	1	-	-	4	-
Ysgrifennu	1	-	-	4	-
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>5</b>				

Caffaeliad	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	1	1	2	2	3
Siarad/Defnyddio	1	1	1	5	1
Deall	1	1	3	2	2
Ysgrifennu	1	1	1	3	3
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>9</b>				

### iii) CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaethau Oedolion	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	10	13	4	15	4
Siarad/Defnyddio	10	8	9	18	1
Deall	12	10	4	18	2
Ysgrifennu	8	12	7	14	5
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>46</b>				

Cymorth Busnes	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	-	-	-	1	-
Siarad/Defnyddio	-	-	-	1	-
Deall	-	-	-	1	-
Ysgrifennu	-	-	-	1	-
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>1</b>				

Gwasanaethau Plant	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	1	1	3	8	4
Siarad/Defnyddio	1	-	4	10	2
Deall	1	-	4	12	-
Ysgrifennu	1	-	4	7	5
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>17</b>				

Diogelwch y Cyhoedd	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	6	2	3	8	4
Siarad/Defnyddio	6	1	2	12	2
Deall	3	2	3	11	4
Ysgrifennu	5	2	2	10	4
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>23</b>				

#### iv) CYMUNEDAU

Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	2	-	6	7	1
Siarad/Defnyddio	2	-	5	7	2
Deall	2	-	4	9	1
Ysgrifennu	2	-	4	8	2
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>16</b>				

Peirianeg a Chludiant	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	2	2	1	2	-
Siarad/Defnyddio	2	3	-	2	-
Deall	2	3	-	2	-
Ysgrifennu	2	1	2	2	-
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>7</b>				

Cynllunio ac Adfywio	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	3	3	2	10	3
Siarad/Defnyddio	3	3	1	13	1
Deall	3	3	2	11	2
Ysgrifennu	3	1	2	12	3
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>21</b>				

Cartrefi Caerffili	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	3	2	3	31	8
Siarad/Defnyddio	3	-	3	38	3
Deall	3	2	3	38	1
Ysgrifennu	3	1	2	30	11
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>47</b>				

v) CYFADRAN ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Dysgu, Addysg a Chynhwysiant	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	10	4	3	38	20
Siarad/Defnyddio	8	6	5	50	6
Deall	7	5	4	52	7
Ysgrifennu	7	5	4	35	24
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>75</b>				

Dysgu Gydol Oes a Chynllunio a Strategaeth	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	4	1	7	23	6
Siarad/Defnyddio	4	2	6	28	1
Deall	3	2	6	26	4
Ysgrifennu	4	1	6	24	6
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>41</b>				

Ysgolion	Yn Rhugl	Gweddol Dda	Cymedrol	Ychydig	Heb Ddatgelu Lefel
Darllen	55	7	6	21	1
Siarad/Defnyddio	54	6	6	24	-
Deall	18	6	7	20	39
Ysgrifennu	53	6	7	22	2
<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>90</b>				

### 3. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg

Ers 2001, mae **1630** o staff y Cyngor a staff y sefydliadau partner wedi mynychu dosbarthiadau Cymraeg llafar yn amrywio o gyrsiau blasu ar gyfer dechreuwyr pur, hyd at, ac yn cynnwys, cyrsiau lefel 'A'.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, trefnodd CBS Caerffili hyfforddiant llafar a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff, ac mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y staff fu'n cymryd rhan a'r nifer y cyrsiau a gynigiwyd:

CYRSIAU A GYNIGIWYD	NIFER Y CYRSIAU A GYNIGIWYD	NIFER Y STAFF A FYNYCHWYD
30 Wythnos	33	47
Cwrs Deuddydd Blasur Gymraeg	6	37
Cwrs 10 Wythnos Blasur Gymraeg	10	57
Say Something in Welsh - Cwrs Cymraeg Ar-Lein	1	3
Wedi tynnu allan o'r cwrs	Dd/G	4

#### Ffigyrau Staff Caerffili – 2001-2018

Blwyddyn Academaidd	Cyrsiau Blwyddyn	Cyrsiau Blasau	Cyfanswm nifer y Dysgwyr	(Niferoedd tynnodd allan o'r cwrs)
2001 – 2002	46	0	46	(0)
2002 – 2003	66	0	66	(11)
2003 – 2004	84	37	121	(17)
2004 – 2005	70	43	113	(15)
2005 – 2006	61	77	138	(10)
2006 – 2007	66	27	93	(12)
2007 – 2008	68	38	106	(7)
2008 – 2009	43	58	101	(9)
2009 – 2010	48	50	98	(13)
2010 – 2011	50	33	83	(1)
2011 – 2012	52	21	73	(2)
2012 – 2013	52	22	74	(3)
2013 – 2014	61	142	203	(16)
2014 – 2015	56	58	114	(13)
2015 – 2016	40	28	68	(14)
2016 - 2017	45	14	59	(3)
2017 – 2018	47	27	74	(4)
<b>CYFANSYMIAU</b>	<b>955</b>	<b>675</b>	<b>1630</b>	<b>(150)</b>

Mae'r cyrsiau Blasu Cymraeg Deuddydd yn cael eu rhedeg mewn cydweithrediad â nifer o awdurdodau a sefydliadau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru. Maent yn cyfarfod yn fisol fel **Grŵp DEDDF** ac maent wedi bod yn cynnal y cyrsiau hyn yn flynyddol am nifer o flynyddoedd. Mae'r cyrsiau bob amser yn boblogaidd a llwyddiannus gyda Chyngor Caerffili yn cynnal dau gwrs ym mis Gorffennaf 2017 oherwydd y galw.

Datblygwyd Cwrs Cymraeg 10 Wythnos newydd wedi'i deilwra ar gyfer staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau rheng flaen a derbynfydd ac fe'i targedir yn bennaf ar gyfer y meysydd gwasanaeth a restrir o dan Safon 65 a 65A. Bydd angen i'r awdurdod gydymffurfio â'r Safonau hyn erbyn 30<sup>ain</sup> Medi 2018, ac felly mae'r gwaith a wnaed i drefnu cyrsiau ac ymgysylltu â'r meysydd gwasanaeth hyn wedi'i wneud i sicrhau bod gan aelodau staff y sgiliau iaith sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth derbynfa.

Safon 65	<p>Os byddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson ("P") ymlaen llaw a fydd yn golygu y bydd P yn dod i'ch derbynfa, rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg (oni bai eich bod yn gwybod eisoes a yw P yn dymuno cael y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg).</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 65 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2017 a hyd at 30 Medi 2018:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <a href="#">Llyfrgelloedd Bargod, Rhisga, Rhymni, Coed Duon, Caerffili ac Ystrad Mynach;</a></li> <li>• <a href="#">Canolfan Ymwelwyr Caerffili;</a></li> <li>• <a href="#">Maenordy Llancaiach Fawr;</a></li> <li>• <a href="#">Gwasanaethau Cofrestru yn Nhŷ Penallta;</a></li> <li>• <a href="#">Canolfannau hamdden Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga.</a></li> </ul>	30/09/17
Safon 65A	<p>Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg i berson ("P") os byddwch wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw i P, a - (a) bod P wedi eich hysbysu ymlaen llaw ei fod yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, neu (b) eich bod eisoes yn gwybod bod P yn dymuno cael y gwasanaeth yn Gymraeg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 65 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2017 a hyd at 30 Medi 2018:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <a href="#">Llyfrgelloedd Bargod, Rhisga, Rhymni, Coed Duon, Caerffili ac Ystrad Mynach;</a></li> <li>• <a href="#">Canolfan Ymwelwyr Caerffili;</a></li> <li>• <a href="#">Maenordy Llancaiach Fawr;</a></li> <li>• <a href="#">Gwasanaethau Cofrestru yn Nhŷ Penallta;</a></li> <li>• <a href="#">Canolfannau hamdden Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga.</a></li> </ul>	30/09/17

Mae'r ystod o hyfforddiant a gynigir i staff yn mynd rhagddo ac mae cwrs ar-lein 10 awr newydd wedi'i gynnal gan Cymraeg Gwaith yn cael ei archwilio gyda'r bwriad o gyflwyno'r cwrs i staff nad ydynt yn gallu mynychu cwrs hyfforddi. Unwaith eto, bydd y cwrs hwn yn cael ei dargedu yn y dechrau ar gyfer staff sy'n gweithio yn y meysydd gwasanaeth a restrir dan Safonau 65 a 65A.

Trefnwyd Cyrsiau Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg ym mis Rhagfyr 2017 ond roedd yn rhaid eu canslo oherwydd niferoedd isel yn gwneud y cwrs yn anymarferol i'w rhedeg.

Cynhaliodd y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol bedair sesiwn hyfforddi ar gyfer staff ar y 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn ymwneud ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg yn cael eu deall ac yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn gofyn am ymagwedd ragweithiol tuag at ddarparu gwasanaethau, sy'n sicrhau bod dewis iaith yn cael ei chanfod a'i gofnodi yn y cyswllt cyntaf.

Archebodd 125 aelod o staff am le i fynychu'r sesiynau hyfforddi a oedd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, uwch ymarferwyr, rheolwyr tîm a gweithwyr cymorth.

Ni ofynnwyd i unrhyw gyrsiau gael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, o bosibl oherwydd natur y cyrsiau a gyflwynwyd, felly nid oes unrhyw ffigurau hyfforddi staff i'w cofnodi. Cyhoeddir y wybodaeth uchod yma i ddarparu dilyniant gydag adroddiadau blaenorol.

## 4. Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag

Cafodd cyfanswm o **565** o swyddi newydd a swyddi gwag eu hysbysebu ers 30<sup>ain</sup> Mawrth 2017 a chafwyd eu categoraiddio fel swyddi lle:

- (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

**6**

- (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd

**8**

Mae cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg wedi bod ar gael am ddim i bob aelod o staff ers blwyddyn academaidd 2001-2002 (gweler Adran 3 yn flaenorol)

- (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol,

**529**

- (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

**1**

**(mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n swydd Cymraeg dymunol)**

Gwneir Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi gwag/swyddi newydd yn unol â Safon 136, ac maent wedi cael eu cofnodi ers mis Hydref 2016. Mae'r asesiad a'r dystiolaeth ategol wedyn yn ffurfio rhan o'r achos busnes sy'n angenrheidiol er mwyn cael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu rhai newydd.

Mae'n rhaid i holl swyddi gwag neu newydd gael Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ac mae'r holl swyddi yn cael eu hysbysebu fel **Cymraeg dymunol** fel gofyniad safonol, a bydd yr asesiad yn ystyried a oes angen newid hynny i fod yn swydd **Cymraeg hanfodol**.

Rhwng 1<sup>af</sup> Ebrill 2017 a 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018, roedd **21** o swyddi a hysbysebwyd heb i'r Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg perthnasol gael ei gwblhau. Gofynnodd Adnoddau Dynol i'r rheolwyr recriwtio i ddarparu'r asesiadau, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb, felly hysbysebwyd y swyddi heb yr Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg angenrheidiol.

Mae Pennaeth Gwasanaethau Pobl wedi cytuno, oni bai bod Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg, na hysbysebir unrhyw swyddi newydd na swyddi gwag. Bydd diweddariad hefyd i'r Canllawiau Recriwtio a Dethol sy'n rhoi gwybodaeth gliriach i reolwyr sy'n recriwtio ynghylch ymgymryd ag Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg.



# Atodiad 1 – Adroddiad Cynydd Blynyddol ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022

<b>Maes Strategol 1 – Y Teulu</b>	<b>Gweledigaeth</b> – Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu.
<b>Blaenoriaethau Strategol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymestyn cyfleoedd anffurfiol rheolaidd er mwyn i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn helpu eu plant i feithrin ac ennill hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith Gymraeg</li> <li>Creu neges gyson ar draws y sector, er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu ac yn galluogi plant i gaffael yr iaith Gymraeg</li> <li>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac argaeledd darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd</li> </ul>	

Rhif	Gweithred	Sylwadau Cynydd	
1.1	Hyrwyddo mudiadau sy'n hybu'r Gymraeg megis Menter Iaith Caerffili, Yr Urdd, Mudiad Meithrin, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent ac yn benodol eu gweithgareddau a'u gwasanaethau i deuluoedd (trwy rhyngweithiau cymdeithasol, Newslin, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd)	<p>Mae Uned Gyfathrebu CBSC yn parhau i hyrwyddo'r sefydliadau hyn gymaint ag y bo'r modd ac yn rhannu cynnwys priodol trwy ei sianeli.</p> <p>Mae Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd (prosiect Teuluoedd yn Gyntaf) yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o ddigwyddiadau iaith Gymraeg yn yr ardal.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn hyrwyddo grwpiau Cymraeg i blant i rieni sir Caerffili (tylino babi, ioga babi, Stori a chân).</p> <p>Cydweithio agos rhwng staff Mudiad Meithrin, Mentrau Iaith, Cymraeg i Oedolion o ran cynnal digwyddiadau i'r teulu e.e Clwb Doti a Fi misol (l'w gynnal ar ôl y Pasg).</p> <p>Staff yn ymwybodol o wasanaethau/sefydliadau a'u hyrwyddo pan fo hynny'n berthnasol.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo gwasanaethau ei hunain yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau partneriaid a chyrff eraill. Gwneir hyn trwy system ebostio'r Fenter, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y Fenter ac wrth gydnabod gwaith partneriaeth ar draws ei gwasanaethau. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â Chyngor Caerffili er mwyn hyrwyddo ein gwaith ac yn annog partneriaid i gydweithio yn yr un modd.</p> <p>ClwbCwtsh - yn rhedeg am 8 wythnos yng Nghaerffili i gyflwyno Cymraeg i deuluoedd.</p>	<p>Uned Gyfathrebu</p> <p>Addysg Gymunedol</p> <p>Cymraeg i Blant</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Mudiad Meithrin</p>

		<p>Mae Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg Cyngor Caerffili yn hyrwyddo gwaith a gwasanaethau ei holl bartneriaid gan gynnwys gwaith sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Fforwm Iaith. Byddwn yn hyrwyddo wrth ddefnyddio sianelu cyfryngau cymdeithasol a thrwy system ebost y Cyngor. Byddwn bob tro yn annog partneriaid i gydweithio â ni yn yr un modd.</p> <p>Mae ein trefniant partneriaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn weithgar (yn wyneb toriadau i grantiau cyllido allanol) ac mae'n parhau i ddatblygu'n weithredol (gan gynnwys cyfrannu at gwricwlwm ehangach y gwasanaeth ieuenctid).</p>	<p>Polisi Corfforaethol</p> <p>Gwasanaeth Ieuenctid</p>						
1.2	Ffurflenni gwerthuso digwyddiadau yn cynnwys cwestiynau ynghylch defnydd iaith	<p>Mae Ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn gofyn i deuluoedd os hoffent dderbyn y gwasanaeth yn Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i deuluoedd am yr iaith a siaredir gartref a chofnodir hyn ar y ffurflen.</p> <p>Rydym yn gofyn i rieni ffurflen adborth ar mynychu cyfres o'n sesiynau, rydym yn holi am iaith y cartref ac yn holi'r cwestiynau isod i bob grwp newydd:</p> <table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <tr> <td><b>Ystyried gofal dydd cyfrwng Cymraeg ar gyfer fy mhientyn</b></td> </tr> <tr> <td><b>Mynychu Cylch Ti a Fi lleol</b></td> </tr> <tr> <td><b>Mynychu Cylch Meithrin lleol</b></td> </tr> <tr> <td><b>Ystyried dewis Addysg Gymraeg</b></td> </tr> <tr> <td><b>Defnyddio mwy o Gymraeg</b></td> </tr> <tr> <td><b>Dychwelyd i'r gwaith</b></td> </tr> </table> <p>Mae ffurflenni Gwerthuso Iaith Gymraeg ar gael ym mhob digwyddiad. Mae'r templed safonol ar gael argyriant canolog y tîm.</p> <p>Yn ystod ein holl gweithgareddau, rydym yn dosbarthu ac yn casglu ffurflenni a gwybodaeth gwerthuso digwyddiadau. Mae'r wybodaeth yn cynnwys wybodaeth am barn ac anghenion pobl lleol ac yn nodi dewis a defnydd iaith cyfranogwyr.</p>	<b>Ystyried gofal dydd cyfrwng Cymraeg ar gyfer fy mhientyn</b>	<b>Mynychu Cylch Ti a Fi lleol</b>	<b>Mynychu Cylch Meithrin lleol</b>	<b>Ystyried dewis Addysg Gymraeg</b>	<b>Defnyddio mwy o Gymraeg</b>	<b>Dychwelyd i'r gwaith</b>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Cymraeg i Blant</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p>
<b>Ystyried gofal dydd cyfrwng Cymraeg ar gyfer fy mhientyn</b>									
<b>Mynychu Cylch Ti a Fi lleol</b>									
<b>Mynychu Cylch Meithrin lleol</b>									
<b>Ystyried dewis Addysg Gymraeg</b>									
<b>Defnyddio mwy o Gymraeg</b>									
<b>Dychwelyd i'r gwaith</b>									
1.3	Datblygu adnodd gwybodaeth cynhwysfawr (llyfryn/adnodd arlein) sy'n dangos y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd a'r daith trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r manteision i ddwyieithrwydd	<p>Mae Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd yn darparu taflen Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd i deuluoedd yn Gymraeg. Mae'n anfon teuluoedd i wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sydd â hysbysebion o weithgareddau, digwyddiadau a grwpiau Cymraeg.</p> <p>Eisoes wedi cyfrannu at y llyfryn Bod yn ddwyieithog o ran gwasanaethau Cymraeg i blant yn y sir.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Cymraeg i Blant</p>						

		<p>Cynhyrchir taflenni Teuluoedd yn Gyntaf mewn fformat dwyieithog ac maent yn cwrdd â Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Mae Fforwm Iaith Sir Caerffili wedi sicrhau cyllid er mwyn cynhyrchu'r adnodd ac yn y broses o gytuno ar gynnwys a gwedd y llyfryn. Bwriedir yn ystod Ebrill-Mai 2018 i gyhoeddi'r adnodd a'i ddsbarthu yn eang ar draws y Sir. Fe fydd partneriaid ac aelodau'r Fforwm yn medru derbyn cyflenwad o'r llyfryn a'i dosbarthu yn ystod gweithgareddau, digwyddiadau a'u gwaith o gefnogi teuluoedd yn lleol. Fe fydd y Fforwm yn trafod ymhellach y cyfle i drosglwyddo'r llyfryn i fod yn adnodd ar-lein yn y dyfodol.</p> <p>Yn cydweithio â'r Fforwm Iaith i geisio tynnu gwybodaeth at ei gilydd i greu llyfryn defnyddiol. Gobeithir i drosi'r ddogfen i fod yn adnodd ar-lein yn y dyfodol.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
1.4	<p>Newsline i ddatblygu erthygl (dwywaith y flwyddyn) yn hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol trwy'r Cyngor neu sefydliadau partner</p>	<p>Dim ond un rhifyn o Newsline a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod monitro (Ionawr - Mawrth). Mae bwriad i gynnwys erthygl briodol yn rhifyn mis Mehefin.</p> <p>Wedi danfon draw erthygl a llun ar gyfer y rhifyn diwethaf am grwp Caerffili (heb dderbyn cadarnhad ganddynt).</p> <p>Mae aelodau Fforwm Iaith y Sir yn awyddus i gydweithio gyda'r swyddogion hynny sy'n cynhyrchu Newsline er mwyn cynyddu'r deunydd sy'n ymddangos yn y papur sy'n hyrwyddo'r cyfleoedd yn lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. Trwy'r Fforwm, mae aelodau wedi derbyn gwybodaeth ynglyn â sut i ddarparu deunydd ar gyfer y papur ac yn awyddus i gydweithio ymhellach er mwyn sicrhau sylw digonol i'r Gymraeg o fewn y papur yn gyson.</p> <p>Yn sicrhau fod aelodau'r Fforwm Iaith yn gwybod pryd mae dyddiadau argraffu Newsline er mwyn iddynt gyflwyno erthyglau/gwybodaeth i ymddangos yn y rhifyn nesaf.</p>	<p>Uned Cyfathrebu</p> <p>Cymraeg i Blant</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

<b>Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc</b>	<b>Gweledigaeth – Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, gwella'u hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg, a sicrhau gwell mynediad i wasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg</b>
Blaenoriaethau Strategol	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi addysgwyr (athrawon, gweithwyr ieuenctid ac ati) er mwyn iddynt allu hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg</li> <li>Gweithio gyda phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth</li> <li>Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd â chyswllt â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg</li> <li>Cynyddu'r nifer o blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg</li> <li>Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddatblygu i fod yn bencampwyr dros y Gymraeg yn eu cymunedau</li> </ul>	

Page 42	2.1	Cynnal archwiliad o'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn adnabod bylchau ac ardaloedd lle ceir galw uchel.	<p>Mae Coleg y Cymoedd yn gwneud awdit blynyddol o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae gan y Coleg strategaeth 3 blynedd sy'n amlinellu sut bydd y Coleg yn cynyddu'r ddarpariaeth.</p> <p>Comisiynodd Menter Iaith Sir Caerffili Broffil Iaith o sefyllfa'r Gymraeg yn y sir ym Mai 2016. Yn ogystal, mae WESP Caerffili yn nodi'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i blant a phobl y Sir. Hoffai Menter Iaith Sir Caerffili gydweithio â phartneriaid a Phwyllgor Craffu perthnasol o fewn Cyngor Caerffili er mwyn cwblhau archwiliad manwl o'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn adnabod bylchau a'r ardaloedd daearyddol hynny lle nad oes digon o wasanaethau cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae ein clwb ieuenctid Cymraeg yn cyfrannu at hyn (wedi'i leoli yn Gilfach/Bargod ond gydag aelodaeth o gymunedau ar draws y fwrdeistref).</p> <p>Nifer o ddefnyddwyr clwb ieuenctid Cymraeg unigol am y flwyddyn = 134</p>	<p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Gwasanaeth Ieuenctid</p>
	2.2 (a1.1)	Hyrwyddo mudiadau cyfrwng Cymraeg megis Yr Urdd a Menter Iaith Caerffili yn eang ac yn benodol eu gwasanaethau i blant a phobl ifanc	<p>Gwahoddir Yr Urdd a'r Mentrau Iaith i fewn i'r Coleg bob tro y cynhelir digwyddiadau yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg e.e Sgil Iaith, Sgil Gwaith. Mae dysgwyr y Coleg wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd (Caerffili).</p> <p>Gweler 1.1 uchod</p> <p>Staff yn ymwybodol o wasanaethau/sefydliadau a'u hyrwyddo pan fo hynny'n berthnasol.</p>	<p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Uned Cyfathrebu</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p>

		<p>Fel y nodir yn 1.1, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo gwasanaethau ei hunain yn ogystal â gwasanaethau a gwaith mudiadau eraill. Gwneir hyn trwy ein system ebostio, cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ac yn ystod gweithgareddau'r Fenter. Yn ogystal, yn ystod unrhyw ddigwyddiadau cymunedol, rydym yn gwahodd partneriaid i fynychu a hyrwyddo eu gwaith.</p> <p>Mae'r Urdd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, gan gynnwys clybiau chwaraeon, teithiau undydd, teithiau tramor a chlwb leuenctid (mewn partneriaeth a Chyngor Caerffili a'r Fenter).</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Urdd</p>
<p>2.3</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Page 43</p>	<p>Gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o fudiadau megis Yr Urdd, Menter Iaith Caerffili, Gyrfa Cymru a Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn nhermau gyrfa neu cyfleoedd cyflogaeth</p>	<p>Mae tîm gweithrediadau cyflogadwyedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop Addysg Oedolion yn gweithio gyda nifer o asiantaethau ar draws y fwrdeistref ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg lle bynnag y bo modd. Hysbysebwyd cwrs sgiliau derbyn Cymraeg ond ni chawsom unrhyw un yn gwneud cais am le. Gofynnir i bob un o'n cyfranogwyr os oes angen iddynt ddarparu cyrsiau yn Gymraeg ond hyd yn hyn nid oes neb wedi mynegi diddordeb.</p> <p>Mae'r Coleg wedi gweithio gyda rhai staff Gyrfa Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r gwefannau a fydd o fudd i siaradwyr Cymraeg wrth iddynt chwilio am waith e.e fel <a href="http://www.lleol.net">www.lleol.net</a> / safle swyddi ac ati lle mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol er mwyn cael swyddi.</p> <p>Yn ystod Chwefror 2018, trefnwyd digwyddiad Sgil Iaith Sgil Gwaith gan Goleg y Cymoedd. Derbyniwyd wahoddiad gan holl aelodau'r Fforwm i'r digwyddiad a mynychodd y Fenter gan ddsbarthu gwybodaeth i fyfyrwyr Coleg y Cymoedd am werth y Gymraeg yn y gweithle, yn arbennig o fewn y sector gofal plant. Yn ogystal â'r digwyddiad hwn, mae'r Fforwm yn trafod ar hyn o bryd, digwyddiad tebyg ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru.</p> <p>Byddai'r digwyddiad yn gyfle i holl aelodau'r Fforwm i ddsbarthu gwybodaeth i fyfyrwyr yr ysgol am y math o wasanaethau maent yn darparu a'r cyfleoedd gyrfaol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae Menter Iaith Sir Caerffili hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli niferus i siaradwyr Cymraeg ifanc ac ar hyn o bryd yn cefnogi gwirfoddolwyr o fewn ein gwasanaethau gofal plant a'n gweithgareddau amrywiol i blant a phobl ifanc.</p> <p>Mudiad Meithrin wedi cefnogi digwyddiad 'Sgil Iaith Sgil Gwaith' yn Coleg y Cymoedd Nantgarw.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Mudiad Meithrin</p>

		<p>Swyddog Ieuenctid yr Urdd yn cyd-weithio yn agos iawn gyda Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar brosiectau sy'n hybu gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn nhermau gyrfa.</p> <p>Wedi cynnal stondin am yr eildro yn nigwyddiad Coleg y Cymoedd – Sgil Iaith Sgil Gwaith. Roeddwn yn hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor a'r galw mawr sydd am siaradwyr Cymraeg i ddod i weithio er mwyn gallu darparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg ac i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Ymgysylltu a Dilyniant (gwaith NEETS) - Mae gweithiwr ieuenctid Cymraeg yn gweithredu fel gweithiwr arweiniol yn hyn o beth ac mae rhwydweithiau gyda'r grwpiau cefnogi'r fenter hon.</p>	<p>Urdd</p> <p>Polisi Corfforaethol</p> <p>Gwasanaeth Ieuenctid</p>
2.4	<p>Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal â phhecyn adnoddau er mwyn cefnogi darpariaethau i hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth leol</p>	<p>Mae gan holl staff a gyllidir trwy'r Gronfa Gymdeithasol Ewrop y cyfle i fynychu cyrsiau i ddysgu'r iaith Gymraeg fel rhan o'i datblygiad profesiynol, mae rhai wedi dangos diddordeb yn barod ond neb eto wedi manteisio ar y cyfle.</p> <p>Mae cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi cael eu cynnal fel rhan o raglan HMS i staff y Coleg (Sgil iaith a staff mewnol y Coleg sy wedi darparu'r cyrsiau hyn).</p> <p>Wedi defnyddio'r grant Teuluoedd yn Gyntaf i dalu am hyfforddiant Cynnig Rhagweithiol ychwanegol ar gyfer staff Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau i Blant. Darparwyd cyflwyniad Cymraeg hefyd mewn digwyddiad "Interact" i lawer o sefydliadau.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili wedi datblygu pecynnau ymwybyddiaeth iaith amrywiol er mwyn cefnogi darpariaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn awyddus i gydweithio gyda'r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili er mwyn datblygu cefnogaeth pellach i brosiectau a gwasanaethau ieuenctid. Byddai hwn yn medru cynnig hyfforddiant fel rhan o raglan hyfforddiant y gwasanaeth ieuenctid yn ogystal â datblygu pecyn o adnoddau a fyddai'n cynorthwyo staff i hyrwyddo Cymreictod a threftadaeth leol.</p> <p>Defnyddio adnodd Mudiad Meithrin 'Cychwyn Gorau' i helpu staff y cylchoedd Meithrin i gael sgwrs gyda rhieni am fanteision fod yn ddwyieithog.</p> <p>Wedi trefnu cwrs Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer staff ond nad oedd digon o ddi-ddordeb i redeg y cwrs.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Mudiad Meithrin</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

2.5	Ymgynghori a datblygu ymgyrch i ddenu pobl ifanc at waith ieuenctid, chwaraeon a gweithgareddau celfyddydol fel arweinwyr ifanc	<p>Mae'r Urdd yn hysbysebu'r cwrs 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' yn y Coleg yn ein digwyddiadau ac wedi cofrestru sawl ymgeisydd i ddysgu bod yn arweinwyr.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i weithio gyda'r Urdd, Adran Chwaraeon yr Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerffili er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gyrfaol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym brinder gweithwyr ieuenctid sy'n medru siarad Cymraeg yn y Sir a'r galw am wasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn cynyddu. Rydym yn awyddus i drafod cynlluniau posib ar gyfer ymgyrch hyfforddiant a recriwtio yn ystod y flwyddyn nesaf</p> <p>Yr Urdd yn hyrwyddo cyfleoedd fel hyn yn gyson.</p>	<p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Urdd</p>
2.6	Cynllunio, cydlynu a hyrwyddo calendr o weithgareddau gofal a chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc 11-18 oed	<p>Sefydlodd Datblygu Celfyddydau Theatr i Blant mewn partneriaeth â Menter Caerffili i mwyn cynnig darpariaeth theatr ieuenctid gyfartal</p> <p>Mae gan y Coleg galendr blynyddol o weithgareddau Cymraeg a Chymreig amrywiol i annog y dysgwyr i fagu balchder yn yr iaith ac yn eu gwlad.</p> <p>Er fod Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gofal a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir, fel partneriaid, nid ydym wedi cydweithio ar un calendr o weithgareddau. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cydweithio'n agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir er mwyn hyrwyddo'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i deuluoedd yn y sir ond rydym yn croesawu'r cyfle i drafod datblygu calendr sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i deuluoedd.</p>	<p>Datblygu Celfyddydau</p> <p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p>
2.7	Cynllunio, cydlynu a hyrwyddo calendr o weithgareddau gofal, chwarae a hamdden cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 4-11 oed.	<p>Er fod Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gofal a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir, fel partneriaid, nid ydym wedi cydweithio ar un calendr o weithgareddau. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cydweithio'n agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir er mwyn hyrwyddo'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i deuluoedd yn y sir ond rydym yn croesawu'r cyfle i drafod datblygu calendr sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i deuluoedd.</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p>

<b>Maes Strategol 3 – Cymunedau</b>	<b>Gweledigaeth – Cefnogi grwpiau cymunedol a’u helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd</b>
<b>Blaenoriaethau Strategol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg presennol a rhannu arfer da</li> <li>• Cefnogi grwpiau cymunedol i brif-ffrydio defnydd o'r iaith Gymraeg a chynnig y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith</li> <li>• Darparu cymorth penodol i fentrau cymunedol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg</li> </ul>	

Page 45	3.1	Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o fewn gwasanaethau yn gwisgo llinyn neu bathodynau addas yn dangos eu sgil, fe fydd hwn yn annog y cyhoedd yn raddol i siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.	<p>Mae gan bob aelod o staff yn y Coleg sy'n siarad Cymraeg lanyard a/neu fathodyn iaith Gwaith fel bod yn amlwg i bawb eu bod nhw'n siarad Cymraeg a dyn ni'n eu hannog i'w gwisgo nhw bob tro.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn dosbarthu llinynnau a bathodynau addas i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys ysgolion a busnesau ar draws y Sir.</p> <p>Rydym yn darparu lanyards a bathodynau i aelodau staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg er mwyn arddangos bod gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar ein porthole i staff.</p>	<p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
	3.2	Cynllunio a chydlyn ymgyrch er mwyn dosbarthu bathodynau ac arwyddion iaith Gymraeg ar draws busnesau a mudiadau er mwyn cefnogi pobl leol i ddefnyddio'r Gymraeg.	<p>Fel rhan o'n Prosiect Y Gymraeg mewn Busnes, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn dosbarthu bathodynau ac arwyddion iaith Gymraeg ymysg busnesau a sefydliadau'r Sir. Mae'r prosiect yn cefnogi busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac mae'n dangos yn glir bod gwasanaethau dwyieithog ar gael i'r cyhoedd yn rhan bwysig o'r broses.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'r Fenter Iaith er mwyn sicrhau bod busnesau lleol yn ymwybodol o'r angen i hyrwyddo gwasanaethau trwy'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol – cysylltiaday trwu'r Fforwm Busnes Caerffili</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
	3.3	Cefnogi datblygiad a hyrwyddo cyfeirlyfr/ffônlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol.	<p>Mae 'lleol' i ni yn y Coleg yn golygu Sir Gaerffili a Sir Rhondda Cynon Taf am fod 1 campws gyda ni yng Nghaerffili a 3 yn RCT. Ydy creu cyfeirlyfr/ffônlyfr ar y cyd yn bosibl?</p> <p>Yn ystod Ebrill-Mai 2017, lansiodd Menter Iaith Sir Caerffili, gyfeirlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir. Dosbarthwyd y cyfeirlyfr yn eang ar draws y sir a derbyniwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r adnodd. Rydym yn trafod ar hyn o bryd y posibilrwydd o ddatblygu'r wybodaeth i fod yn adnodd ar lein a rhyngweithiol.</p> <p>Wedi cyfrannu tuag at gyfeirlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg y Fenter Iaith a lansiodd ym mis Gorffennaf 2017.</p>	<p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>



<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Page 47</p>	<p>3.4 Cefnogi a hyrwyddo datblygiad Ffiliffest, gŵyl flynyddol Menter Iaith Caerffili sy'n dathlu'r iaith Gymraeg a threftadaeth leol. Byddai hyn yn cynnwys cefnogaeth gan adrannau megis Twristiaeth, Hamdden, Datblygu'r Celfyddydau, Gwasanaeth Ieuenctid a Chyfathrebu.</p>	<p>Cefnogaeth ariannol a chyrchu pobl greadigol sy'n gweithio yn yr iaith Gymraeg ar gyfer Ffiliffest gan Development Celfyddydau</p> <p>Mae'r Coleg yn hapus i gefnogi Ffiliffest mewn unrhyw ffordd y gallwn.</p> <p>Mae Uned Cyfathrebu CBSC yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r digwyddiad blynyddol hwn.</p> <p>Yn ystod mis Mehefin 2017, cynhaliodd y Fenter ei gŵyl haf, Ffiliffest, unwaith eto eleni yng Nghastell Caerffili. Mynychodd yn agos at 4000 o bobl yr ŵyl a chefnogwyd y diwrnod gan aelodau'r Fforwm yn ogystal â nifer o sefydliadau eraill. Derbyniwyd cefnogaeth gwerthfawr gan swyddogion marchnata a chyfathrebu Cyngor Caerffili.</p> <p>Yn ystod yr ŵyl, darparwyd rhaglen o weithgareddau amrywiol i blant a theuluoedd yn ogystal ag ardal gemau fideo a llwyfan gyda cerddoriaeth fyw. Cynhelir yr ŵyl unwaith eto eleni ar Fehefin 9fed ac rydym yn awyddus iawn i gydweithio ag adrannau amrywiol y Cyngor er mwyn hyrwyddo a datblygu'r ŵyl ymhellach.</p> <p>Mudiad Meithrin yn cefnogi gyda stondin digwyddiadau yn y sir Ffair Nadolig, Miri Meithrin</p> <p>Rydym yn cydweithio yn agos gyda'r Fenter Iaith trwy greu cyswllt rhyngddynt hwy a gwasnaethau'r Cyngor. Rydym yn eu cefnogi mewn cyfarfodydd gyda gwasanethau penodol er mwyn ceisio adeiladu perthynas a sicrhau bod y cydweithio yn llwyddiannus.</p>	<p>Datblygu Celfyddydau</p> <p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Uned Cyfathrebu</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Mudiad Meithrin</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
	<p>3.5 Sicrhau fod mewnbyn a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg o fewn rhaglen digwyddiadau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Y Caws Mawr, Parti Traeth Coed Duon, marchnadoedd Nadolig ayyb).</p>	<p>Datblygwyd pob prosiect celfyddydol gyda marchnata dwyieithog.</p> <p>Mae'r Coleg yn hapus i gyfrannu a chymryd rhan mewn unrhyw ffordd y gallwn.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn croesawu unrhw gyfle i gydweithio gyda Cyngor Caerffili er mwyn cynyddu'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o fewn ei rhaglen digwyddiadau cymunedol.</p> <p>Rydym yn siarad gydag adrannau'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg wrth greu dogfennaeth marchnata ddwyieithog.</p>	<p>Datblygu Celfyddydau</p> <p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

<b>Maes Strategol 4 – Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg</b>	<b>Gweledigaeth – Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffil</b>
Blaenoriaethau Strategol	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y safonau iaith perthnasol yn cael eu gweithredu</li> <li>• Dylai uwch reolwyr y cyngor ddangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a chontractau a dogfennau comisiynu 3ydd parti</li> <li>• Dosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y cyngor a sefydliadau partner</li> </ul>	

4.1	Parhau i annog pob adran o fewn y Cyngor i ddefnyddio nwyddau a bathodynau iaith Gwaith (Safon 68).	<p>Gweler 3.1 uchod.</p> <p>Gweler yr ymateb o dan 3.1 ar gyfer Polisi Corfforaethol.</p>	<p>Uned Cyfathrebu</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
4.2	Cefnogi ac annog siaradwyr Cymraeg ymhlith gweithwyr y Cyngor i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.	<p>Ymdrinnir â phob ymholiad gyda chyfarchiad dwyieithog gan holl staff y gwasanaeth celfyddydol, mae staff hefyd yn ymarfer ac yn cefnogi datblygiad ei gilydd.</p> <p>Mae aelod o Dîm Cymorth Canolog Teuluoedd yn Gyntaf yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg ac mae pob aelod o staff yn ateb y ffôn yn ddwyieithog.</p> <p>Rydym yn gwisgo bathodynau a lanyards fel bod cyfle gan siaradwyr a dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ar lafar. Rydym hefyd wedi rhoi cyfres o wybodaeth ar ein porthol mewnol i gefnogi staff wrth ddeall Safonau'r Gymraeg a sut i'r rhoi ar waith.</p> <p>Uwchben y clociau clocio i mewn ac allan ac wrth bod lifft ar bob llawr ym mhencadlys y Cyngor, mae yna fframiau ar y wal sy'n dangos <b>Ymadrodd yr Wythnos</b>. Mae cyfres ohonynt gan gynnwys rhai ar gyfer gwaith ond hefyd mae yna rai hwylus megis Twrci a Stwffin a Tân Gwylt. O dan yr ymadroddion dangosir mewn ffordd ffonetig sut i ynganu'r ymadrodd.</p> <p>Crëwyd cardiau desg ar gyfer staff ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog, sut i wneud negeseuon allan o'r swyddfa, negeseuon ar gyfer peiriannau ateb a negeseuon systemau ffôn awtomataidd yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.</p> <p>Mae gan yr awdurdod drwydded sefydliad ar gyfer cysgliad a bydd y meddalwedd ar gael ar bob cyfrifiadur y Cyngor cyn bo hir</p>	<p>Datblygu Celfyddydau</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

4.3	Cynllunio er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth wedi ei seilio ar adborth a'r nifer o gwynion a dderbyniwyd.	Bydd y Coleg yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg o Ebrill y 1af ac felly bydd cynllunio, monitro ac ymateb i ofynion a chwynion yn rhan hanfodol o waith ein Swyddog Iaith ni.  Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi, eu hymchwilio a bod unrhyw newidiadau sydd angen, yn cael eu gwneud yn unol â Safonau'r Gymraeg.	Coleg y Cymoedd  Polisi Corfforaethol
4.4	Datblygu Cynllun Gwobrwyo ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr yr iaith Gymraeg – Dysgwr y Flwyddyn/Gwasanaeth sy'n dangos y cynnydd mwyaf ayyb.	Mae'r Coleg yn cynnig cyfleoedd i ennill y gwobrau hyn yn barod.  Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro yn edrych ar sut i roi Cynllun Adnabod Staff ar waith a gobeithir i wneud un o'r gwobrwyo yn un ar gyfer Gwasanaeth neu Tîm sy'n cydymffurfio'n dda neu Gwasanaeth/Tîm Dwyieithog y Mis – ar waith.	Coleg y Cymoedd  Polisi Corfforaethol
4.5	Grwpiau/digwyddiadau ar gyfer dysgwyr o fewn y Cyngor i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.	Mae aelod o Dîm Cymorth Canolog Teuluoedd yn Gyntaf yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg.  Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi dysgwyr y Gymraeg ar draws y Sir ac yn trefnu rhaglen o gyfleoedd wythnosol a misol ar eu cyfer. Rydym yn awyddus i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ymysg dysgwyr y Cyngor.  Rydym yn gobeitho sefydlu rhywbeth yn y dyfodol agos unwaith rydym wedi cyflogu staff ychwanegol i'r tîm. Gobeithir i ddefnyddio sefydliadau fel y Fenter Iaith i ddod i mewn i drafod ac i hyrwyddo eu gwasnaethau.	Teuluoedd yn Gyntaf  Menter Iaith Caerffili  Polisi Corfforaethol
4.6	Cysylltu â phartneriaid er mwyn canfod faint o swyddi iaith Gymraeg hanfodol sydd ganddynt, natur y swyddi a sut y recriwtir ar eu cyfer.	Dyw'r Coleg ddim yn cysylltu â phartneriaid am ba swyddi Cymraeg hanfodol sydd ar gael ond rydyn yn tynnu sylw ein siaradwyr Cymraeg at y gwefannau perthnasol fel <a href="http://www.lleol.net">www.lleol.net</a> lle hysbysebir amrywiaeth eang o swyddi ble mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol/dymunol.  Ar y gweill - wedi'i osod fel gweithred newydd.	Coleg y Cymoedd  Teuluoedd yn Gyntaf
4.7	Cysylltu â phartneriaid er mwyn canfod pa fudiadau sy'n darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith i staff a sut darperir yr hyfforddiant.	Ar y gweill - wedi'i osod fel gweithred newydd.  Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn medru darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith wedi ei deilwra at adrannau penodol.	Teuluoedd yn Gyntaf  Menter Iaith Caerffili

4.8	Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ym mhwynt 4.6 uchod i ddatblygu rhaglen marchnata gan gynnwys ffair swyddi cyfrwng Cymraeg yn flynyddol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y gymuned a phobl ifanc am gyfleoedd gyrfa posib ar gyfer siaradwyr y Gymraeg.	<p>Cynhelir digwyddiad <i>Sgil Iaith, Sgil Gwaith</i> bob 2 flynedd yn y Coleg a gwahoddir ystod eang o gyflogwyr i mewn i dynnu sylw at pa mor bwysig yw'r Gymraeg yn y gweithle a pha gymaint o fantais yw siarad Cymraeg wrth wneud llawer o swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.</p> <p>Fel y nodwyd eisoes, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi rhaglen farchnata swyddi cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd o fewn sectorau amrywiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Byddai'r Cyngor â diddordeb mawr mewn sicrhau bod digwyddiad o'r fath yn cael ei gynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr lleol am y galw sydd am siaradwyr Cymraeg mewn gweithleoedd ac i sicrhau eu bod nhw'n rhoi gwerth ar yr iaith. Byddwn yn cydweithio fel Fforwm Iaith i geisio trefnu digwyddiad o'r fath.</p>	<p>Coleg y Cymoedd</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
